

# Gweithio i Estyn



Yn Estyn, rydym yn cydnabod mai ein pobl yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr.

Fel sefydliad sy'n cael ei osod ymhlith sefydliadau gorau'r Gwasanaeth Sifil yn gyson yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, ac fel sefydliad Buddsoddwr Mewn Pobl (Aur), gwyddom fod ein pobl yn hynod ymroddedig i'n gwaith.

Trwy ddewis gweithio i ni, byddwch yn rhan o sefydliad sy'n cynnig profiad unigryw i'r gweithiwr, yn cynnwys:

- Balchder wrth gefnogi ein cenhadaeth, sef cynnig atebolrwydd i'r cyhoedd am ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant
- Cyfleoedd i lywio datblygiad polisïau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru
- Boddhad eich bod yn helpu i feithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Bydd Estyn yn cynnig:

- Arweinyddiaeth a gwerthoedd cadarn
- Cyfathrebu agored ac ymrwymiad i welliant parhaus
- Buddsoddiad sylweddol yn eich datblygiad personol a phroffesiynol

Darllenwch ymlaen i ddysgu rhagor am y buddion sydd ar gael i holl weithwyr Estyn:



Tâl



Iechyd a Lles



Pensiwn



Polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd



Cymorth Ariannol



Cynllun beicio i'r gwaith



Gwyliau ac absenoldebau eraill



Datblygiad proffesiynol



Gweithio hyblyg



Gostyngiadau



Cynhwysiant / Cymdeithasol



## Tâl

Mae ein cyfraddau/bandiau tâl yn cyfateb i rai Llywodraeth Cymru ac maent yn uwch na rhai llawer o sefydliadau eraill y Gwasanaeth Sifil. Rydym yn ymroddedig bob amser i dalu cynyddrannau i'r holl staff cymwys, hyd at uchafswm eu band tâl.

### Darpariaethau absenoldeb oherwydd salwch

Os byddwch, gwaetha'r modd, yn mynd yn sâl, mae ein polisi ar absenoldeb oherwydd salwch yn rhoi hyd at chwe mis o gyflog llawn i chi mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis, yna hyd at chwe mis gyda hanner eich cyflog mewn unrhyw gyfnod pedair blynedd.



## Pensiwn

Mae gweithio i Estyn yn rhoi'r hawl i chi ddod yn aelod o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, a byddwn yn cyfrannu trwy dalu tuag 20 - 24.5 y cant o'ch cyflog yn flynyddol.

Bydd **Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil** yn talu cyfandaliad o naill ai 2 neu 3 gwaith eich cyflog pensynadwy (yn dibynnu ar y cynllun penodol) i berson(au) enwebedig pe baech yn marw yn eich swydd. Yn dibynnu ar ba gynllun rydych chi'n ei ddewis, gellir

Dysgwch ragor:

[www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk)



## Cymorth Ariannol

[Yr Elusen i Weithwyr Sifil – i chi, gennyh chi](#) – gall roi cymorth a chyngor ariannol i bobl sydd yn weision sifil ar hyn o bryd neu a arferai fod, neu sydd wedi ymddeol.

Yn ogystal â chynnig cymorth a chyngor ariannol, mae'r elusen yn cynnig cymorth hefyd â materion sy'n amrywio o iechyd meddwl i berthnasoedd.



## Gwyliau ac absenoldebau eraill

Rydym yn cynnig hawl gwyliau blynyddol hael. Mae aelodau staff amser llawn yn cael 31 diwrnod ynghyd â 10 niwrnod o wyliau banc a braint bob blwyddyn. Caiff pobl sy'n gweithio'n rhan-amser wyliau blynyddol ar sail pro-rata.

Yn ogystal, mae opsiynau am absenoldeb arbennig â thâl ar gyfer hyfforddiant milwyr wrth gefn, dyletswyddau cyhoeddus, absenoldeb astudio ac absenoldeb tosturiol.

Gallwn hyd yn oed gynnig egwyliau gyrfa o hyd at 5 mlynedd, yn ddi-dâl.



## Gweithio hyblyg

Rydym yn rhoi pwys ar gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac yn ystyried pob cais am weithio hyblyg, gan gynnwys gweithio rhan-amser, rhan o'r flwyddyn (yn ystod y tymor yn unig), rhannu swydd, oriau cywasgedig, oriau blynyddol, a rhan-ymddeoliad. Os gall gweithio hyblyg eich helpu chi a gall weithio i'r busnes, byddwn yn ceisio darparu ar ei gyfer.

Mae pob arolygydd yn gweithio gartref ac, yn y Gwasanaethau Corfforaethol, gallwch gymryd rhan yn ein cynllun amser hyblyg.



## Iechyd a Lles

Gwyddom pa mor bwysig yw hi eich bod yn teimlo ar eich gorau – yn y gwaith a thu hwnt.

Rydym wedi derbyn cydnabyddiaeth am hybu iechyd a lles ein gweithwyr trwy gyflawni Dyfarniad Arian y Safon Iechyd Corfforaethol.

Rydym yn cynnig archwiliad iechyd blynyddol am ddim ac yn talu am brawf llygaid pob dwy flynedd (a byddwn yn cyfrannu hyd at £50 tuag at gost sbectol lle bo angen y rhain ar gyfer gweithio ar gyfrifiadur yn unig).

Mae ein Rhaglen Cymorth Gweithwyr yn eich galluogi i gael cymorth emosiynol a chwnsela a'r gallu i gael at ymgynghorwyr a gwybodaeth a chynngor arbenigol 24/7.

Hefyd, gallwch fanteisio ar [Gyngor Chwaraeon a Hamdden y Gwasanaeth Sifil](#) a chynlluniau Yswiriant Iechyd drwy [Ofal Iechyd y Gwasanaeth Sifil](#).



## Polisiau sy'n ystyriol o deuluoedd

Pecynnau cystadleuol sy'n ystyriol o deuluoedd, gan gynnwys absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu, tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir ac absenoldeb rhiant ynghyd â darpariaethau ar gyfer absenoldeb arbennig â thâl a heb dâl, ac egwylliau gyrfu.

Gweler y [Polisi sy'n ystyriol o deuluoedd](#) am fanylion yr hawliau i absenoldeb a thâl.



## Cynllun beicio i'r gwaith

Rydym yn cynnig cynllun beicio i'r gwaith a, thrwy'r cynllun, gallwch brynu beic sy'n werth hyd at £1,000 a thalu amdano drwy eich cyflog dros gyfnod o 12 mis. Gallwch arbed 32% ar gost beic newydd drwy'r cynllun.

## Datblygiad proffesiynol



Fel Buddsoddwr mewn Pobl (Aur) achrededig, rydym yn ymroi i wella perfformiad a gwireddu'n hamcanion trwy reoli a datblygu ein pobl yn dda. Byddwn yn eich cynorthwyo ag anghenion dysgu a datblygu, gan gynnwys Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Darperir cyfnod sefydlu cynhwysfawr i'r holl aelodau staff ac mae Arolygwyr yn elwa o raglen fentora gan gymheiriaid yn ystod eu blwyddyn gyntaf.

### Tanysgrifiadau Proffesiynol

Gwelir ein hymrwymiad i'ch statws proffesiynol trwy dalu'ch tanysgrifiadau proffesiynol os oes angen i chi fod yn aelod o sefydliad neu gymdeithas broffesiynol sydd â chyswllt uniongyrchol â'ch swydd.



## Gostyngiadau

Gallwch ymuno â sefydliadau partner i arbed arian ar amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys:

- Boundless gan [Gymdeithas Foduro'r Gwasanaeth Sifil](#) (CSMA) – gostyngiadau ar ddiwrnodau allan, gwyliau, syniadau a chynigion
- [Cymdeithas Yswiriant y Gwasanaeth Sifil](#) (CSiS) – ar gyfer eich car, eich cartref ac anghenion teithio



## Cynhwysiant / Cymdeithasol

Mae Estyn yn ymroi i hybu a sicrhau cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae amrywiaeth o rwydweithiau ar gael i gynnig help, cymorth a gweithgareddau cymdeithasol.

Mae gweithgareddau cymdeithasol yn bwysig i iechyd emosiynol a chorfforol. Mae staff Estyn yn trefnu nifer o weithgareddau cymdeithasol ac maent yn gefnogwyr brwd digwyddiadau elusennol fel Her Tri Chopa Cymru a her feicio Taith Taf Tŷ Hafan.